Kyle Eldridge

Pam ddylai aelodau CGGC bleidleisio drosof i fod yn ymddiriedolwr?

Mae gennyf ddiddordeb yn y rôl oherwydd rwyf eisiau defnyddio fy mhrofiad yn fy rolau blaenorol i alluogi mudiadau gwirfoddol i wneud mwy o wahaniaeth gyda'i gilydd ledled Cymru. Fy enw i yw Kyle Jamie Eldridge, rwy'n 27 oed, yn byw yn Y Fenni, Sir Fynwy ac yn Awtistig.

O ran yr hyn rwyf yn ei wneud, rwy'n astudio Tystysgrif Lefel 3 mewn Newyddiaduraeth Sylfaen ar hyn o bryd gyda'r Academi Newyddiadurwyr Anabl. Yn fy amser rhydd, rwy'n Gynghorydd Tref a Chymuned dros Gyngor Tref y Fenni a Chyngor Cymuned Llandeilo Bertholau yn ôl eu trefn. Yn ogystal, fi yw Cadeirydd Grŵp Llywio Awtistiaeth Gwent ac rwyf hefyd yn aelod o Bwyllgor Llais Cymunedol Cymdeithas Tai Sir Fynwy.

Yn olaf, gwnaeth fy ffrind a minnau greu grŵp Cymdeithasol Sbectrwm y Fenni (ASS) yn ddiweddar, sy'n fenter annibynnol rhwng cymheiriaid a sefydlwyd i drechu unigrwydd ac ynysigrwydd o fewn cymuned Awtistig y Fenni. Ein nod yw cynnig lle diogel i'r rhai mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas drwy weithgareddau a rhoi cyfle iddynt gwrdd mewn lleoliadau lleol lle gallant fod yn nhw eu hunain.

Rwy'n ddiolchgar iawn i chi am ddarllen hwn ac yn gobeithio y byddwch yn fy ystyried ar gyfer y rôl ymddiriedolwr.